**Is-ddeddf 30 – Canllawiau Cyffredinol - pysgota gyda chewyll a thrapiau.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

*Mae Is-ddeddfau 30 a 31 yn berthnasol i'r môr rhwng Trwyn Cemaes (Ceredigion) a'r Parlwr Du (Sir y Fflint).*

Bwriad y canllawiau hyn yw meithrin cysylltiadau da rhwng pysgotwyr a phawb sydd â diddordeb mewn defnyddio ardaloedd ar hyd yr arfordir. O ddefnyddio offer pysgota yn synhwyrol ac yn ymarferol, bydd llai o anghytuno, llai o ddamweiniau, llai o ddifrod i eiddo ac o bosibl, colli llai o asedau.

1. Nodwch eich rhif cofrestru unigryw (Is-ddeddf 30) ar eich holl fwiau / fflotiau. Bydd hyn yn ein helpu i adnabod unrhyw offer a adewir ar ôl yn y bysgodfa.

2. Mae'n rhaid i fwiau / fflotiau marcio fod yn weladwy beth bynnag yw cyflwr y llanw (Is-ddeddf 11). Beth bynnag yw dyfnder lleoliad y gawell, defnyddiwch ddigon o raff ar gyfer y dyfnder hwnnw'n unig. Mae defnyddio gormod o raff yn beryglus i gychod eraill, deifars a phobl sy'n nofio yng nghyffiniau'r cewyll.

3. Peidiwch â defnyddio rhaff sy'n arnofio. Yn ddelfrydol, defnyddiwch raff sydd â phwysau ar un pen iddi. Mae hyn yn lleihau'r perygl o'r rhaff yn mynd yn sownd i gychod eraill, i ddeifars a phobl sy'n nofio yng nghyffiniau'r cewyll.

4. Sicrhewch fod digon o bwysau yn y cewyll rhag eu bod yn cael eu llusgo gan gerrynt cryf neu dywydd gwael. Mae cewyll sy'n mynd ar goll yn parhau i ddal pysgod ac maent yn niweidiol i'r bysgodfa.

5. Peidiwch â lleoli cewyll ger angorfeydd, glanfeydd, offer pysgota neu gewyll eraill. Gall eich offer pysgota gael ei ddifetha os yw'n mynd yn sownd mewn unrhyw beth.

6. Peidiwch â lleoli cewyll mewn sianeli mordwyo, dyfrffyrdd neu fynedfeydd porthladdoedd. Os yw'r gawell yn mynd yn sownd mewn dyfrffordd gyfyng, gall fod yn beryglus iawn. Os nad ydych yn sicr o leoliad y ddyfrffordd, cysylltwch â'ch Porthladd lleol.

7. Archwiliwch y cewyll / trapiau'n rheolaidd. Os ydych yn gadael y cewyll am dros wythnos, tynnwch nhw o'r dŵr. Dylech eu tynnu o'r dŵr ar ddiwedd y tymor pysgota hefyd.

8. **Cofiwch** fod gennych hawl o dan Is-ddeddf 30 i bysgota gyda hyd at 5 cawell ond peidiwch â chodi cewyll pysgotwyr eraill. Hefyd, dim ond nifer benodol o 'bysgod' y cewch eu dal mewn diwrnod ac mae'r rheolau ynghylch y maint glanio lleiaf yn berthnasol hefyd. Yn ogystal, mae'n rhaid ichi gydymffurfio ag Is-ddeddf 31 sy'n gwahardd glanio cimychiaid V-fylchod neu gimychiaid sydd wedi'u hanafu. Mae gwybodaeth wedi'i hatodi.

Gofynnwn i chi gydymffurfio â'r canllawiau hyn a'n helpu i reoli pysgodfeydd pysgod cregyn cynaliadwy. Mae pysgotwyr masnachol yn ennill bywoliaeth arnynt ac mae'n rhoi llawer o bleser i bobl sy'n pysgota yn eu hamser hamdden.

Os hoffech chi wybod mwy am bysgota môr, cysylltwch â ni. Gallwn drefnu i'ch Swyddog Pysgodfeydd lleol ateb eich cwestiynau.

Llywodraeth Cymru, Swyddfa Pysgodfeydd, Suite 3, Cedar Court, Haven Head Business Park, Milford Haven, SA73 3LS.

Telephone: 03000 253500 Email: milfordhavenfisheriesoffice@gov.wales